Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/02/2015**

## Cyd-destun

**Dyma yw'r prif ddarparwyr sy'n cael eu hariannu gan yr AdAS yn Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro:**

- Cyngor Sir Penfro (81%)
- Coleg Penfro (14%)
- Coleg Cymunedol YMCA (4%)
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru (1%)

Fodd bynnag, mae ystod ehangach o sefydliadau wedi'u cynnwys yn Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro, gan gynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol y Drydedd Oes Sir Benfro, Greenlinks, Canolfan Bloomfield Arberth, Gyrfa Cymru, Planed, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae Sir Benfro yn cwmpasu ardal o ryw 1,640 km sgwâr. Yng nghyfrifiad 2011, amcangyfrifwyd mai nifer y boblogaeth oedd 122,439. Mae tua 44% o boblogaeth y sir yn byw ym mhrif aneddiadau Hwlffordd / Pont Fadlen, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Penfro, Abergwaun / Wdig, a Dinbych-y-pysgod. Mae 12% arall o'r boblogaeth yn byw mewn trefi llai fel Neyland, Tyddewi, Trefdraeth ac Arberth. Mae gweddill y boblogaeth (tua 44%) yn byw mewn aneddiadau llai ac yng nghefn gwlad. Mae ychydig dros draean o'r sir wedi'i dynodi yn Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Bu cynnydd o 8.2% ym mhoblogaeth Sir Benfro rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011. Mae hyn yn bennaf oherwydd mewnfudo net (yn enwedig o ran oedolion hŷn oedran gweithio) a chynnydd yn nifer y bobl sy'n byw yn hŷn.

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 19.2% o bobl sy'n dair oed ac yn hŷn yn siarad Cymraeg yn Sir Benfro, ac roedd hyn yn un o'r cyfraddau uchaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 2.5% o gyfrifiad 2001. Mae'r cyfrifiad hefyd yn dangos bod bron holl breswylwyr Sir Benfro o gefndir ethnig gwyn.

Mae canran yr oedolion oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng er 2001. Yn 2013, nid oedd 11% o oedolion oedran gweithio yn Sir Benfro yn meddu ar unrhyw gymwysterau. Roedd hyn 1.5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru a dyma oedd yr wythfed cyfradd uchaf o blith awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae iechyd a lles preswylwyr yn Sir Benfro yn debyg i'r hyn ydyw ar gyfer preswylwyr mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, neu'n well. Roedd disgwyliad oes dynion ar gyfer 2010-2012 yn uwch na chyfartaledd Cymru. Nid oedd disgwyliad oes menywod ar gyfer 2010-2012 yn wahanol iawn i gyfartaledd Cymru. Roedd cyfradd y bobl hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned yn Sir Benfro ychydig islaw cyfartaledd Cymru yn 2013-2014.

Y diwydiannau sy'n cyflogi'r niferoedd mwyaf o bobl yn Sir Benfro yw Gwasanaethau Iechyd, Llety a Bwyd, Manwerthu ac Addysg. Yn 2013, y gyfradd cyflogaeth yn Sir Benfro oedd 69.5%. Roedd hyn yn agos at gyfartaledd Cymru. Yn 2013, yr enillion wythnosol cyfartalog yn Sir Benfro oedd £553. Y gyfradd hon oedd y chweched uchaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Sir Benfro yn safle 17 yng Nghymru o ran ei chanran o ardaloedd difreintiedig. Nodir bod tair ardal yn Hwlffordd, Aberdaugleddau a Phenfro yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro yn dda oherwydd:

- mae dysgwyr yn Sir Benfro yn cyflawni cyfraddau llwyddo gwell na dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion mewn rhannau eraill o Gymru;
- mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu hiechyd a'u lles. Mae bron pob dysgwr yn magu hyder o ganlyniad i gymryd rhan mewn dysgu. Maent yn elwa ar y symbyliad meddyliol. Mae bron pob dysgwr yn eu cymell eu hunain, yn mynychu'n dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yn y dosbarth;
- mae'r rhwydwaith dysgu yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda; ac
- mae'r addysgu'n dda.

Fodd bynnag, er gwaethaf tuedd ar i fyny yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau addysg sylfaenol i oedolion yn llwyddiannus, mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol islaw'r cymharydd cenedlaethol. Nid oes gan y rhwydwaith ddealltwriaeth ddigon da o raddfa'r angen medrau sylfaenol yn y sir. Nid yw un ar ddeg y cant o oedolion oedran gweithio yn Sir Benfro yn meddu ar unrhyw gymwysterau. Mae darpariaeth ar gyfer ASO a medrau hanfodol wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf, i 8% o ddarpariaeth, ond mae'n gyfran rhy fach o hyd o ran cyflwyno cyffredinol.

### Rhagolygon gwella

- Mae Grŵp Strategol Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro (RhDSB), trwy ei gynllun strategol, yn gosod gweledigaeth a chyfeiriad effeithiol ar gyfer y rhwydwaith.
- Mae'r rhwydwaith yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau dysgwyr trwy Lais y Dysgwr i Gymru ac amrywiaeth o brosesau eraill.
- Mae grŵp cwricwlwm y rhwydwaith yn gweithio'n dda ar lefel weithredol i rannu amserlenni arfaethedig partneriaid a lleihau dyblygu. Mae cydlynwyr canolfan Sir Benfro yn Dysgu yn gweithio'n dda i adolygu meintiau ystafelloedd dosbarth a gwneud penderfyniadau am eu hyfywedd parhaus.

Fodd bynnag, nodwyd y materion canlynol.

- Nid yw cynllun strategol y rhwydwaith yn cynnwys ffocws ar dargedau penodol. O ganlyniad, ni all y rhwydwaith fesur cynnydd yn drylwyr er mwyn penderfynu pa mor dda y mae wedi cyflawni ei amcanion. Nid yw grŵp strategol y rhwydwaith yn rheoli a monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau'r rhwydwaith yn ddigon agos.
- Nid yw rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth feincnodi yn ddigon da i herio perfformiad ar lefel rhaglen. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar lefel rhaglen yn ddigon da nac yn rhoi targedau gwella ar waith.

- Nid yw'r cynllun datblygu ansawdd yn ddigon clir ar y camau penodol sydd eu hangen i alluogi gwelliant a'r graddfeydd amser gofynnol ar gyfer adolygu'r camau.  Nid yw'r grŵp strategol yn adolygu cynnydd yn erbyn meysydd allweddol i'w gwella yn ddigon da.

## Argymhellion

A1 Gwella'r ffordd y caiff darpariaeth medrau sylfaenol ei chynllunio a'i chyflwyno i wneud yn siŵr bod lefel y ddarpariaeth yn adlewyrchu graddfa'r medrau sylfaenol sydd eu hangen yn y sir a bod dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus yn unol â'r cymharydd cenedlaethol o leiaf

A2 Gwella cynllunio strategol i wneud yn siŵr bod y rhwydwaith yn gallu mesur cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau strategol

A3 Gwella'r defnydd o wybodaeth feincnodi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar lefel maes pwnc sector, lleihau faint o ddarpariaeth sy'n cael ei chofnodi fel 'arall' neu 'lefel yn anhysbys', a rhoi targedau gwella ar waith

A4 Gwella cynllunio datblygu ansawdd i nodi camau gweithredu penodol ar gyfer gwella a gosod graddfeydd amser clir ar gyfer monitro cynnydd

A5 Gwella'r ffordd y mae'r grŵp strategol yn gweithio i reoli a monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn blaenoriaethau strategol y rhwydwaith a meysydd allweddol i'w gwella'r rhwydwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd tîm o ddau arolygydd yn ymweld â'r rhwydwaith ymhen rhyw 18 mis i arfarnu cynnydd yn erbyn argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, yn 2012-2013, mae dysgwyr yn Sir Benfro yn cyflawni cyfraddau llwyddo gwell na dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion mewn rhannau eraill o Gymru. Mae cyfraddau llwyddo'r rhwydwaith yn gosod y bartneriaeth ymhlith y tair partneriaeth uchaf ledled Cymru. Bu gwelliant o bron i wyth pwynt canran yng nghyfradd lwyddo dysgwyr o 2010-2011, pan oedd y rhwydwaith yn y traean isaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau ar gyfraddau sydd gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion. Fodd bynnag, mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ar gyfraddau bron i bum pwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod y gyfradd cyrhaeddiad wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyfradd cwblhau wedi aros yn sefydlog, sef tua 88%. Mae data anghyhoeddedig y darparwr ei hun ar gyfer 2013-2014 yn dangos cynnydd bach mewn cyfraddau cwblhau.

Mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn cyflawni'n dda. Mae dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y sir yn cyflawni cyfraddau llwyddo o 87%, sy'n uwch nag ar gyfer dysgwyr o ardaloedd tebyg ledled Cymru. Mae dysgwyr sy'n ddynion yn cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus ar lefel ychydig yn uwch na dysgwyr sy'n fenywod yn Sir Benfro a dysgwyr sy'n ddynion mewn rhannau eraill o Gymru. Mae ychydig dros hanner y dysgwyr yn Sir Benfro yn 50 oed ac yn hŷn. Maent yn cyflawni cyfraddau llwyddo sydd ymhell uwchlaw'r cyfraddau llwyddo a gyflawnir gan eu cyfoedion mewn rhannau eraill o Gymru.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dosbarthiadau. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u tiwtoriaid, yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac esboniadau, yn holi ac yn ateb cwestiynau'n dda, ac yn canolbwyntio ar eu gwaith. Mewn dosbarthiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae dysgwyr yn gweithio'n effeithiol ar ystod o destunau gwahanol yn yr un dosbarth ac yn gwneud cynnydd da. Mewn ysgrifennu creadigol, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau y maent wedi eu dysgu yn effeithiol wrth gymryd rhan mewn cystadlaethau ysgrifennu, wrth gyhoeddi eu gwaith eu hunain, neu wrth ysgrifennu er hwyl. Mewn dosbarthiadau ar gyfer Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mae llawer o ddysgwyr yn datblygu ac yn ymarfer eu Saesneg trwy ystod o destunau diddorol. Datblygant ddealltwriaeth o ddaearyddiaeth, diwylliant a threftadaeth Cymru.

Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn gwneud cynnydd digonol yn unig. Mewn rhai achosion, nid yw dysgwyr yn symud ymlaen i lefelau dysgu uwch, ac maent yn aros ar yr un lefel yn rhy hir. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio targedau dysgu unigol yn ddigon da i gynllunio eu dysgu neu fesur eu cynnydd eu hunain.

Mae bron i 490 o ddysgwyr o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig o’r sir yn cymryd rhan mewn cyrsiau sy’n cael eu trefnu gan raglen Sbringfwrdd. Nid yw tua hanner y dysgwyr hyn naill ai’n gymwys i lefel 2 neu nid ydynt yn gwybod pa gymwysterau sydd ganddynt. Maent yn cynhyrchu gwaith da mewn ystod o bynciau, gan gynnwys mosäig, ffotograffiaeth, gwnïo a chanu. Mae tua hanner y dysgwyr ar gyrsiau Sbringfwrdd yn cofrestru ar fwy nag un cwrs ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol o gyrsiau ymgysylltu fel cyrsiau crefft a choginio, ymlaen i gymwysterau llythrennedd, rhifedd neu gymwysterau achrededig eraill.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr ar gyrsiau addysg sylfaenol i oedolion yn gwneud cynnydd da ar lefel sy’n briodol i’w mannau cychwyn. Er gwaethaf tuedd ar i fyny yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau addysg sylfaenol i oedolion yn llwyddiannus, mae’r gyfradd llwyddiant gyffredinol ychydig islaw’r cymharydd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae ychydig dros draean o ddysgwyr ASO yn cwblhau eu cyrsiau’n llwyddiannus ar gyfradd ymhell islaw’r cymharydd cenedlaethol.

Yn gyffredinol, ychydig iawn o ddysgwyr sy’n ymarfer neu’n datblygu eu medrau Cymraeg trwy eu hastudiaethau. Serch hynny, yn yr ardaloedd hynny lle mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg, mae lleiafrif o ddysgwyr yn siarad Cymraeg â’u tiwtoriaid neu’n dysgu’n ddwyieithog.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn magu hyder o ganlyniad i gymryd rhan mewn dysgu. Maent yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn datblygu medrau newydd, yn ymarfer yn annibynnol ac yn ennill cymwysterau. Mae bron pob dysgwr yn eu cymell eu hunain. Mae eu presenoldeb yn dda ac maent yn cyfrannu’n dda yn y dosbarth. Maent yn dylanwadu ar ddarpariaeth trwy gymryd rhan mewn fforymau dysgwyr, ac yn cyfrannu at y ffocws ‘Fe Ddywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni’ a’r cylchlythyrau. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am reoli a chyfarwyddo eu dysgu eu hunain. Mae gan y dysgwyr hyn lefel uchel o reolaeth dros beth a sut maent yn dysgu. O ganlyniad, maent yn cael lefel uchel o foddhad personol o’u dysgu.

Mae bron pob dysgwr yn elwa ar y symbyliad meddyliol a gânt o gymryd rhan mewn dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol yn aml ar hunanhyder a lles. Mae bron pob un o’r dysgwyr hŷn yn cael ymdeimlad o berthyn i’r gymuned. Mae cymryd rhan mewn dysgu yn helpu iddyn nhw gymdeithasu â’u cyfoedion. O ganlyniad, maent yn teimlo’n llai arunig. Mewn ychydig iawn o achosion, mae dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl difrifol sy’n mynychu dosbarthiadau yn ymdopi’n well â’u cyflwr. Mae cymryd rhan mewn dysgu yn rhoi’r penderfyniad iddynt gynnal safbwyntiau cadarnhaol am eu dyfodol.

Mae dysgwyr nad ydynt wedi cyflawni deilliannau da yn y gorffennol yn cymryd rhan mewn darpariaeth dysgu oedolion yn dda. Mae dysgwyr yn y rhaglen Sbringfwrdd yn ymgymryd ag ystod o gyrsiau a gwnânt gynnydd eithriadol o dda. Maent yn meithrin hunangred a chymhwysedd personol ac yn gwneud cynnydd rhagorol i ddysgu pellach, gwaith neu wirfoddoli. Mae dysgwyr yn y Gwasanaeth Prawf yn goresgyn rhwystrau sylweddol rhag dysgu ac yn symud ymlaen â’u bywydau mewn ffordd fwy cadarnhaol o lawer. Mae’r dysgwyr hyn yn cynorthwyo ac yn parchu ei gilydd ac yn dathlu eu cynnydd.

Mewn dosbarthiadau SSIE a medrau hanfodol, mae dysgwyr yn gadarnhaol am eu dysgu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn dda i'w hathrawon. Mae dysgwyr SSIE yn elwa ar ddysgu medrau Saesneg mewn cyd-destun Cymreig, sy'n eu helpu yn eu bywydau bob dydd ac yn y gwaith. Mae dysgwyr sy'n datblygu medrau penodol fel Iaith Arwyddion Prydain, cwnsela, llythrennedd digidol ac ysgrifennu creadigol yn eu defnyddio'n dda, mewn ystod o ffyrdd, i wella ansawdd eu bywyd. Mae rhai ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn yn eu bywydau gweithio o ganlyniad i ennill cymwysterau a medrau newydd. Er enghraifft, mae dau ddysgwr mewn dosbarth cwnsela wedi cael dyrchafiad yn eu gwaith yn ddiweddar trwy wella eu medrau cwnsela.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol cynllun integredig sengl y sir a'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Yn benodol, mae'r rhwydwaith yn cyflawni'r blaenoriaethau i gynorthwyo rhieni plant ifanc, gwella iechyd dysgwyr hŷn a hyrwyddo eu hannibyniaeth, a lleihau arwahanrwydd ac eithrio. Mae'r cwricwlwm yn mynd i'r afael yn dda hefyd â'r flaenoriaeth genedlaethol i fynd i'r afael â thlodi. Mae'n helpu dysgwyr i wella eu medrau cyflogadwyedd a'u gallu i gynyddu eu hincwm.

Mae'r rhwydwaith yn cyflwyno ystod eang o ddosbarthiadau TGCh, sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd digidol. Mae darparwyr yn cyflwyno llawer o'r dosbarthiadau hyn fel gweithdai. Mae hyn yn golygu y gall dysgwyr gyfeirio eu dysgu eu hunain a datblygu'r medrau digidol sy'n bwysig iddynt. Er enghraifft, maent yn dysgu medrau prosesu geiriau i'w helpu i ysgrifennu cofnodion ac adroddiadau ar gyfer grwpiau cymunedol lleol, neu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron llechen neu ffonau clyfar i ymgymryd â thasgau bob dydd.

Mae prosiect Sbringfwrdd - prosiect ar y cyd rhwng saith ysgol gynradd, Cymunedau yn Gyntaf a Chyngor Sir Penfro - yn effeithiol o ran helpu oedolion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig i ymgymryd yn llwyddiannus â dysgu a gwneud cynnydd da. Mae'r prosiect yn cynnig ystod o weithgareddau dysgu oedolion a theuluol i helpu dysgwyr i wella eu hyder a'u medrau a datblygu'r ddealltwriaeth i gefnogi dysgu eu plant. Mae partneriaethau effeithiol â darparwyr eraill, gan gynnwys Coleg Penfro, yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynd ymlaen i lefelau dysgu uwch ac ennill cymwysterau galwedigaethol. Mae'r prosiect yn cyflwyno cyrsiau llythrennedd a rhifedd. Mae tiwtoriaid yn ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn briodol mewn ystod o weithgareddau eraill hefyd. Mae hyn yn helpu'r dysgwyr hyn i gymryd y camau cyntaf yn ôl i ddysgu a mynd ymlaen i ddysgu pellach, gwirfoddoli, neu waith.

Fodd bynnag, nid oes gan y rhwydwaith ddealltwriaeth ddigon da o raddfa'r angen medrau sylfaenol yn y sir. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru nad oes gan 11% o oedolion oedran gweithio unrhyw gymwysterau. Yn ychwanegol, nid oes gan 11% o oedolion oedran gweithio gymhwyster lefel 2. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ASO a Medrau Hanfodol wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf, i 8% o ddarpariaeth, ond mae'n gyfran rhy fach o gyflwyno cyffredinol o hyd.

Mae Cyngor Sir Penfro yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol lleol i wella iechyd a lleihau arwahanrwydd ac eithrio. Mae'n cyflwyno ystod eang o gyrsiau anachrededig, sy'n ennyn diddordeb pobl mewn dysgu tra bydd yn hybu iechyd da hefyd. Er enghraifft, mae'n cynnig ysgrifennu creadigol, ieithoedd modern, hanes teuluol, ioga, tai chi, coginio a chelf a chrefft. Mae llawer o'r dosbarthiadau hyn yn ariannu eu hunain ac yn cyfrannu tuag at gynhyrchu incwm ar gyfer dysgu, sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill. Mae'r model cwricwlwm hwn yn golygu y gall y rhwydwaith hyrwyddo ystod o ddeilliannau ehangach ar gyfer dysgu oedolion yn effeithiol a chynnal ffocws ar wella cyrhaeddiad hefyd.

Mae darparwyr dysgu oedolion yn gweithio'n briodol gyda sefydliadau Cymraeg, fel Menter Iaith Sir Benfro a Chanolfan Dysgu Cymraeg De Orllewin Cymru, i ddatblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. O ganlyniad, gall y rhwydwaith gynnig cyngor a chyfarwyddyd i diwtoriaid roi dimensiwn Cymreig ar waith yn eu haddysgu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfrwng ar gyfer addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ychydig o enghreifftiau yn unig a welodd arolygwyr o effaith y gwaith hwn mewn dosbarthiadau a gweithgareddau. Nid yw'r rhwydwaith yn monitro rhoi diwylliant Cymru na'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon da. Mae rheolwyr yn cynnwys defnyddio'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a'r cyd-destun Cymreig yn eu harsylwadau ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd samplau o gynlluniau gwaith neu gynlluniau sesiwn yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod tiwtoriaid yn cynllunio i gynnwys defnyddio'r Gymraeg a'r diwylliant a'r cyd-destun Cymreig yn eu haddysgu.

Arsylwodd arolygwyr ychydig iawn o enghreifftiau o roi egwyddorion ADCDFE ar waith mewn dosbarthiadau.

**Addysgu: Da**

Mae bron pob tiwtor yn meddu ar wybodaeth bynciol dda iawn. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio cynlluniau gwaith da ac ymdrin ag ystod o fedrau pwnc. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau sesiynau yn cynnwys nodau ac amcanion clir. Mae'r rhan fwyaf o'r cynllunio yn cynnwys ffocws clir ar helpu dysgwyr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd da.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cyflwyno gwaith yn glir a thrwy ystod o ffyrdd, fel byrddau gwyn rhyngweithiol a deunyddiau enghreifftiol priodol. Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol i wella cyflwyniadau.

Bron ym mhob sesiwn, mae tiwtoriaid yn defnyddio gwaith pâr, grŵp ac annibynnol yn briodol. Defnyddiant ystod o weithgareddau gwahaniaethol yn dda i ymgysylltu â dysgwyr a sbarduno eu diddordeb a'u dawn greadigol. Mewn ychydig o sesiynau effeithiol iawn, mae tiwtoriaid yn defnyddio technegau holi yn eithriadol o dda i herio ac ymestyn syniadau dysgwyr unigol. Mae awyrgylch pwrpasol a rhediad da i'r rhan fwyaf o sesiynau. Mewn rhai sesiynau, mae tiwtoriaid yn rhoi tasgau estynedig i ddysgwyr eu gwneud gartref. Mae tiwtoriaid yn cysylltu'r tasgau hyn yn dda â gwaith dosbarth, sy'n helpu dysgwyr i ymestyn eu dysgu a'u medrau ymhellach.

Mewn ychydig iawn o sesiynau llai effeithiol, mae tiwtoriaid yn treulio'n rhy hir yn cyflwyno deunydd ac nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr ateb cwestiynau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau. Nid ydynt yn holi cwestiynau digon treiddgar i sicrhau bod y dysgwr wedi deall y pwynt dysgu yn llawn.

Bron ym mhob sesiwn, mae tiwtoriaid yn defnyddio datganiadau dysgu personol (cynlluniau dysgu unigol) yn effeithiol i ddeall nodau dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw tiwtoriaid yn helpu dysgwyr ddigon i nodi a myfyrio ar dargedau tymor byr ystyrlon sy'n cefnogi dysgu yn effeithiol.

Ar gyrsiau SSIE a medrau hanfodol, mae tiwtoriaid yn cynnal asesiadau diagnostig yn effeithiol i nodi anghenion dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion ar gyrsiau eraill, mae tiwtoriaid yn cefnogi anghenion dysgu canfyddadwy yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar da iawn i ddysgwyr unigol yn ystod y sesiynau. Mewn dosbarthiadau ysgrifennu creadigol, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth ysgrifenedig cynhwysfawr iawn i ddysgwyr ar yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda a ble gallent wella eu gwaith. Yn aml, mae tiwtoriaid yn darparu targed ar gyfer darn dilynol o waith sy'n herio dysgwyr i fod yn hyderus i fentro yn eu hysgrifennu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro yn darparu cyfleoedd da ar gyfer llawer o'i ddysgwyr i wella eu hiechyd a'u lles. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys ystod eang o gyrsiau sy'n helpu dysgwyr nad ydynt wedi cael profiadau da o ddysgu blaenorol i ennill medrau cyfrifiadur a llythrennedd a gwella'u hunan-barch, eu hunanhyder a'u hiechyd meddwl.

Mae gan weinyddwyr y ganolfan wybodaeth dda iawn am y cyrsiau sydd ar gael trwy eu canolfan. O ganlyniad, maent yn darparu cyngor ac arweiniad defnyddiol iawn. Mae hyn yn helpu darpar ddysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch pa gyrsiau i'w dilyn. Ceir cysylltiadau da ac anffurfiol rhwng darparwyr, sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth sy'n gweddu i'w hanghenion. Mae tiwtoriaid cyrsiau yn rhoi arweiniad uniongyrchol da hefyd i ddarpar ddysgwyr ar lefel y cwrs sy'n gweddu orau i'w hanghenion ac yn annog darpar ddysgwyr i fynychu 'sesiynau rhagflas' os ydynt yn ansicr ynglŷn â'u dewis. Mae gwefan Cyngor Sir Penfro yn darparu dolenni cyswllt i gyrsiau sy'n cael eu cynnal gan Goleg Penfro ac i hafan Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro. Fodd bynnag, nid oes unman penodol lle gall dysgwyr ddod o hyd i wybodaeth yn hawdd am yr holl gyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion.

Yn gyffredinol, ceir darpariaeth ddigonol o gymorth dysgu ychwanegol targedig i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu penodol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cynllun bwrsari i helpu dysgwyr sydd ag angen ariannol i barhau â'u dysgu. Mae'r rhwydwaith yn defnyddio'r cymorth ariannol hwn yn effeithiol i helpu dysgwyr i fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau achrededig.

Mae gan y darparwr drefniadau priodol i ddiogelu dysgwyr sy'n oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau cyfoes ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, yn ogystal ag asesiadau risg a gwiriadau cyn-cyflogaeth ar ddarpar staff.

Mae prosiectau diweddar sy'n cael eu hariannu gan grantiau wedi rhoi cyfle buddiol i ddysgwyr fanteisio ar wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau gwaith i ddysgwyr sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir, yn ogystal â chymorth llythrennedd a rhifedd i gyflogeion sydd eisiau gwella eu medrau. Mae llawer o ddysgwyr wedi elwa ar gymryd rhan yn y prosiectau hyn. Fodd bynnag, ers i'r cyllid ddod i ben, mae lefel y cymorth ar gyfer y dysgwyr hyn wedi gostwng ac mae'r cyfleoedd hyn yn rhy gyfyngedig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae pob tiwtor yn hyrwyddo ethos o gynwysoldeb a pharch. Maent yn creu amgylchedd dysgu cefnogol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau pwnc, a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth am faterion sy'n effeithio ar ddysgwyr eraill. Er enghraifft, mae tiwtor Iaith Arwyddion Prydain wedi sefydlu Clwb i'r Byddar ac mae'n cynnwys dysgwyr o'r dosbarth fel aelodau a gwirfoddolwyr. Mewn dosbarth Saesneg lefel 2, mae dysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu mamiaith yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ehangach ac yn ei chael yn haws ymuno â bywyd y gymuned.

Yn y tair blynedd ddiwethaf, mae Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro wedi cynyddu nifer y dysgwyr o ardaloedd difreintiedig sy'n cymryd rhan mewn dysgu. Mae'r rhwydwaith wedi llwyddo i gynyddu canran y dysgwyr 24-49 oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu oedolion dros y tair blynedd ddiwethaf hefyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwaith da a wnaed gydag ysgolion i ennyn diddordeb rhieni mewn dysgu. Fodd bynnag, nid yw canran y dynion sy'n cymryd rhan mewn dysgu wedi cynyddu ac mae wedi cyfrif am ryw chwarter o'r holl gofrestriadau am y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r rhwydwaith yn defnyddio lleoliadau mewn ystod o leoliadau cymunedol, sy'n galluogi dysgwyr i fynychu dosbarthiadau yn agos at eu cartref. At ei gilydd, mae ansawdd yr adeiladau yn dda. Mae safon adnoddau dysgu yn y rhan fwyaf o leoliadau yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae cynllun yr ystafell yn atal defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol. Ychydig iawn o enghreifftiau o arddangosfeydd sy'n annog ymwybyddiaeth o ddiwylliant neu gyd-destun Cymru a welodd y tîm arolygu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae Grŵp Strategol Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro, trwy ei gynllun strategol, yn gosod gweledigaeth a chyfeiriad effeithiol ar gyfer y rhwydwaith. Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ac anghenion oedolion a chymunedau yn Sir Benfro. Fodd bynnag, nid yw cynllun strategol y rhwydwaith yn gosod targedau yn erbyn blaenoriaethau strategol. O ganlyniad, ni all y rhwydwaith fesur cynnydd yn drylwyr er mwyn pennu pa mor dda y mae wedi cyflawni ei amcanion.

Ceir strwythur sefydliadol clir sy'n cysylltu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Grŵp Economaidd Sir Benfro â Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro. Mae gan y rhwydwaith strwythur cyfarfodydd priodol o'r grwpiau strategol i'r grwpiau gweithredol

ar gyfer ansawdd a chwricwlwm. Mae grwpiau eraill ar lefel weithredol yn cynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen. Er enghraifft, mae un grŵp wedi adolygu cynllun y rhwydwaith ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg. Trefnodd grŵp arall fewnbwn y rhwydwaith yn Sioe Sir Benfro. Fodd bynnag, nid yw'r grŵp strategol yn rheoli ac yn monitro blaenoriaethau'r rhwydwaith yn ddigon agos.

Mae rheolwyr canol a staff gweithredol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda er budd y gymuned. Dangosant ymrwymiad proffesiynol cryf i ddysgwyr. Ceir diwylliant da o weithio fel tîm i geisio gwella darpariaeth ar draws y rhwydwaith. Mae'r rhwydwaith yn rhannu arfer dda yn dda ymhlith y darparwyr partner.

Mae gan bob un o'r prif ddarparwyr systemau effeithiol ar gyfer gwerthuso perfformiad staff ar bob lefel. Mae rheolwyr yn rhoi her a chymorth priodol i staff. Yn gyffredinol, ceir cymorth effeithiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r rhwydwaith yn dechrau trefnu digwyddiadau datblygu staff ar y cyd.

Mae aelodau etholedig, llywodraethwyr ac aelodau bwrdd sefydliadau eraill yn y rhwydwaith yn cefnogi'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a'i chyfraniad at wella bywydau pobl yn y gymuned yn effeithiol. Mae Cyngor Sir Penfro wedi cynnal dysgu oedolion trwy gyfnod o drosglwyddo a newid.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae darparwyr unigol yn defnyddio ystod eang o brosesau hunanasesu. Mae'r rhwydwaith yn dod â deilliannau'r prosesau hyn at ei gilydd i lywio'r trefniadau hunanasesu ar gyfer y rhwydwaith cyfan.

Mae'r rhwydwaith yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau dysgwyr trwy Lais y Dysgwr i Gymru ac amrywiaeth o brosesau eraill. Gall dysgwyr fynychu cyfarfodydd tîm cyrsiau a fforymau dysgwyr. Mae'r rhwydwaith yn ymateb yn dda i adborth dysgwyr. Er enghraifft, yn unol ag awgrym dysgwyr, mae'r rhwydwaith wedi cyflwyno cyrsiau byrrach i geisio osgoi dysgwyr yn tynnu'n ôl yn gynnar a gwella cyfraddau cwblhau a llwyddo. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn, mae'r rhwydwaith yn monitro'i effaith yn briodol.

Mae adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth yn fanwl ac wedi'i gyflwyno'n dda. Fodd bynnag, mae'n rhy ddisgrifiadol. Nid oes digon o sylwadau beirniadol.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno data yn dda ar lefel pwnc ar gyfer monitro perfformiad. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth feincnodi yn ddigon da i herio perfformiad ar lefel maes pwnc sector. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar lefel rhaglen yn ddigon da nac yn rhoi targedau gwella ar waith. Nid yw rheolwyr yn mynd i'r afael chwaith â faint o weithgarwch dysgu sy'n cael ei ddangos gan wybodaeth feincnodi fel 'arall' neu 'lefel anhysbys'. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn gwybod p'un a yw dysgwyr yn dilyn cyrsiau ar y lefel briodol neu p'un a yw dysgwyr wedi ennill cymwysterau ar y lefel gywir.

Mae cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth yn nodi'r meysydd allweddol i'w gwella yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun bob amser yn glir am y camau gweithredu penodol sydd eu hangen i alluogi gwelliant a'r graddfeydd amser gofynnol ar gyfer

adolygu’r camau gweithredu. Nid oes digon o brosesau ffurfiol ar waith i ddadansoddi perfformiad a’r rhesymau sylfaenol dros danberfformio ym mhob maes pwnc sector. Nid yw’r grŵp strategol yn adolygu cynnydd yn erbyn meysydd allweddol i’w gwella yn ddigon da.

Mae’r rhwydwaith wedi rhoi polisi arsylwi a safoni ar y cyd ar waith ar gyfer arsylwadau dosbarth. Mae’r rhwydwaith yn cynnal arsylwadau yn rheolaidd ar draws pob darparwr. Fodd bynnag, nid yw pob un o’r staff yn y rhwydwaith yn defnyddio’r un system. O ganlyniad, nid yw cofnodion arsylwi yn gyson ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion er mwyn gallu cynnal arfarniad cyffredinol o’r materion. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw argymhellion yn ddigon penodol ac nid ydynt yn cysylltu ag anghenion hyfforddi tiwtoriaid unigol. Nid yw safoni arsylwadau yn ddigon amserol i lywio anghenion hyfforddi.

Mae’r rhwydwaith yn gweithio’n dda mewn partneriaeth â phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned eraill yn Ne Orllewin Cymru i roi cynllun arsylwi ar waith ar draws y sir. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i asesu effaith y fenter hon.

Nid oes cyfatebiaeth ddigon agos rhwng y barnau yn adroddiad hunanasesu’r rhwydwaith ei hun a barnau’r tîm arolygu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae aelodaeth y bartneriaeth yn eang ac amrywiol sy’n darparu cyfleoedd ar gyfer dilyniant dysgwyr ar draws y rhwydwaith.

Mae Coleg Penfro a Sir Benfro yn Dysgu yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i gynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill yn y rhwydwaith yn cynllunio’r cwricwlwm yn annibynnol. Maent yn rhannu’r wybodaeth hon yn anffurfiol gyda’r rhwydwaith ehangach. O ganlyniad, ni all pob aelod o’r rhwydwaith gymryd rhan yn llawn mewn cynllunio’r cwricwlwm a chraffu ar berfformiad.

Mae gan y bartneriaeth grŵp ansawdd a grŵp cynllunio’r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw’r grwpiau hyn yn cyfarfod yn ddigon aml i ddylanwadu ar waith strategol y rhwydwaith.

Mae partneriaid yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i gyflwyno prosiectau tymor byr sydd o fudd i ddysgwyr, er enghraifft prosiect i ddatblygu Medrau Hanfodol ar draws y sir sy’n cael ei ariannu trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae aelodau’r prosiect yn gweithio’n dda i gyflwyno amcanion y prosiect, gan gynnwys monitro a chynllunio’r ddarpariaeth hon yn dda. Fodd bynnag, nid yw strwythur y rhwydwaith yn ddigon effeithiol yn monitro a chynllunio blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer dysgu oedolion.

Mae’r rhwydwaith yn cysylltu’n dda ag asiantaethau a sefydliadau allanol eraill i ddarparu cyfleoedd dysgu. Mae dysgwyr wedi elwa ar y gwaith hwn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae defnyddwyr y gwasanaeth prawf yn disgrifio’r modd y mae cymryd rhan mewn dosbarthiadau medrau hanfodol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hadsefydlu.

Mae’r rhwydwaith yn gweithio’n dda mewn partneriaeth â phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned eraill yn Ne Orllewin Cymru i drefnu datblygiad staff a chynadleddau blynyddol ar draws y sir.  Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i asesu effaith y mentrau hyn.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae cynllun cyflwyno gwasanaeth y rhwydwaith ar gyfer 2014-2015 yn nodi’n effeithiol y ffrydiau cyllid a’u defnydd ar draws y rhwydwaith.  Mae’r rhwydwaith yn defnyddio arian yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol yn bennaf, a’r gweddill yn unol ag angen lleol.

Mae partneriaid yn y rhwydwaith wedi bod yn effeithiol yn caffael cyllid trwy geisiadau allanol i gynnal prosiectau llwyddiannus ar gyfer gwella’r ddarpariaeth i ddysgwyr. Mae enghreifftiau’n cynnwys cais llwyddiannus Cyngor Sir Penfro ar gyfer prosiect medrau hanfodol rhanbarthol sy’n cael cyllid Ewropeaidd.  Mae Cyngor Sir Penfro a Choleg Penfro wedi rheoli’r adnoddau hyn ar y cyd i’w defnyddio’n effeithiol ar draws y rhwydwaith.  Fodd bynnag, nid oes digon o gynllunio strategol i barhau â’r mentrau hyn pan ddaw’r cyfnod ariannu i ben.  Mae i hyn oblygiad negyddol ar gyfer cynllunio a chynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y tymor hir.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyrsiau adsefydlu i ddysgwyr lle gellir adennill y gost lawn.  Mae’n defnyddio unrhyw arian dros ben a gynhyrchir i gefnogi datblygiadau eraill yn y bartneriaeth, er enghraifft i gyflwyno menter datblygu staff ar draws y bartneriaeth, a rhoi cymhorthdal ar gyfer cyrsiau mewn meysydd blaenoriaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o staff gymwysterau a phrofiad da.  Mae’r rhwydwaith yn cynnig hyfforddiant am ddim i staff sy’n gweithio mewn meysydd blaenoriaeth fel yr iaith Gymraeg a TGCh.

Ar lefel weithredol, mae grŵp cwricwlwm y rhwydwaith yn gweithio’n dda i gynllunio dysgu a lleihau nifer y dosbarthiadau sy’n cael eu dyblygu.

Mae cydlynwyr canolfan Cyngor Sir Penfro yn adolygu meintiau ystafelloedd dosbarth ac yn gwneud yn siŵr bod dosbarthiadau’n parhau i fod yn hyfyw.  Mae’r cydlynwyr hyn yn cyfuno dosbarthiadau â niferoedd llai yn rheolaidd er mwyn cynnal y ddarpariaeth.

Mae’r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae’r bartneriaeth yn darparu gwerth da am arian i’w dysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr i Gymru i lywio pob un o’n harolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg boddhad dysgwyr yw Llais y Dysgwr, sy’n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror bob blwyddyn.

Mae’r arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a’r cymorth a roddir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a’r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema’n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau sy’n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr.

Llenwyd yr arolwg gan bedwar cant a phum deg tri o ddysgwyr sy’n oedolion yn Sir Benfro. Ymatebodd 84 o ddynion a 366 o fenywod. Roedd bron i dri chwarter o’r ymatebwyr yn ddysgwyr hŷn yn 45 oed ac yn hŷn. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o gefndiroedd ethnig gwyn a dywedodd 11% o ymatebwyr fod ganddynt anawsterau dysgu. Roedd niferoedd mwyaf yr ymatebwyr yn dilyn cyrsiau yn y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant.

Roedd chwe deg pedwar y cant o ymatebwyr yn graddio’r bartneriaeth yn dda iawn ar y cyfan. Mae hyn yr un fath â chyfartaledd y sector. Roedd 30% arall yn graddio’r bartneriaeth yn dda ar y cyfan. Roedd naw deg saith y cant o ymatebwyr yn credu bod eu cwrs yn well na’r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 93%.

Graddiodd dysgwyr eu darparwr yn unol â, neu’n well na, meincnod y sector ar draws yr holl themâu a chwestiynau allweddol. Graddiodd naw deg pump y cant o ymatebwyr yr addysgu a’r dysgu yn dda neu’n dda iawn.

Mae’r arolwg hefyd yn dadansoddi atebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig – rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Darlun cymysg a geir yn sgorau’r bartneriaeth ar draws y demograffegau allweddol hyn. Roedd canran y sgorau da iawn yn amrywio’n fawr o amgylch meincnod y sector. Roedd ar y meincnod ar gyfer y ddau ryw, dysgwyr 65 oed ac yn hŷn a dysgwyr gwyn. Roedd ymhell uwchlaw’r meincnod ar gyfer dysgwyr 25-44 oed a dysgwyr ethnig lleiafrifol. Roedd islaw’r meincnod ar gyfer y categorïau eraill.

Roedd niferoedd mwyaf yr ymatebwyr yn dilyn cyrsiau yn y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi, TGCh ac ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynrychioli bron i 58% o faint y sampl. Roedd y sgôr a roddodd ymatebwyr mewn

TGCh ac ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant i'w cyrsiau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer boddhad cyffredinol. Rhoddodd ymatebwyr sy'n dilyn cyrsiau yn y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi sgôr da iawn i'w cyrsiau ar gyfradd ychydig yn is na chyfartaledd y sector. Fodd bynnag, fe wnaeth ymatebwyr ym mhob maes pwnc y sector roi sgôr gwell na'r disgwyl i'w cyrsiau, yn unol â chyfartaledd y sector neu'n well.

Cafodd y bartneriaeth tua 270 o sylwadau air am air. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn falch â'u dosbarth, safon yr addysgu ac ansawdd eu perthynas â'r tiwtor. Roedd nifer o ddysgwyr yn ystyried y lleoliadau'n dda ac yn hawdd eu cyrraedd.

Roedd awgrymiadau am welliannau yn ymwneud â maint y dosbarth – yn enwedig gan fod pobl yn teithio ymhell, gwelliannau yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth, amrywiaeth well o ddeunyddiau ac offer a llai o waith papur, fel llenwi ffurflenni ac arolygon.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Davies | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Pamela Hales | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kevern Kerswell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Fiona Neill | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Hughes-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Chris Birch | Enwebai'r Darparwr |